COFNODION
PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD
9am–11am, Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2020
Cynhaliwyd trwy Gyfarfod Microsoft Teams

Aelodau:

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Amali de Alwis (AA)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Roger Lewis (RL)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd

Arsyllwyr:

Vikki Heywood (VH)	Cadeirydd, Festival 2022 Ltd
Daniel Coles (DC)	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Greg Wilson (GC)	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Yn bresennol:

David Grady (DG)	Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, y Pwyllgor Trefnu a Festival 2022 Ltd
Caroline McGrory (CMcg)	Ysgrifennydd y Cwmni a Phrif Swyddog Cyfreithiol y Grŵp, y Pwyllgor Trefnu a Festival 2022 Ltd
John Darnbrook (JD)	Pennaeth Integreiddio Busnes, Festival 2022 Ltd
Phil Batty (PBa)	Cyfarwyddwr Gweithredol, Festival 2022 Ltd
Sarb Hair (SH)	Cydlynydd Gweithrediadau Corfforaethol, Festival UK* 2022 (Ysgrifenyddiaeth)
Richard Pomfret (RP)	Uwch-reolwr Cyllid, Festival UK* 2022
Lucy Bailey (LB)	Uwch-gwnselydd Cyfreithiol, Festival UK* 2022

RHIF	EITEM	CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU
1	**Croeso a Chyflwyniadau** Agorodd FT y cyfarfod, cadarnhaodd yr aelodaeth, yr arsylwyr a'r rhai a oedd yn bresennol. Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams. Croesawodd FT RL yn aelod newydd o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, heb nodi unrhyw wrthwynebiad. Cadarnhaodd FT mai cyfarfod cynllunio yn ymgynnull aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg oedd cyfarfod mis Hydref ac, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Fwrdd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, hwn fyddai cyfarfod cyntaf y Pwyllgor. **Adolygu Nodiadau'r Cyfarfod Cynllunio a Materion sy'n Codi** Cytunodd y Pwyllgor fod nodiadau'r cyfarfod cynllunio yn gofnod cywir o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2020. Cofnodwyd bod y camau gweithredu wedi eu cwblhau, eu trefnu, a'u cwmpasu gan eitem ar yr agenda; ac eithrio'r canlynol sydd ar y gweill. Amlinellodd DG gynnydd cadarnhaol o ran penodi Archwilydd Mewnol a Gwasanaethau Cynghori Ariannol, yn unol â phrosesau caffael. Bydd hyn yn cael ei gwblhau cyn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Ionawr. Cadarnhaodd PBa fod Llif Prosiectau Caffael llawn sydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd crynodeb o gaffaeliadau ac iddynt werth contract sy'n fwy na £1 miliwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Ionawr. Cadarnhaodd CMcg fod gwaith cyrchu ar y gweill i gaffael adnoddau cyfreithiol allanol ychwanegol i Festival drwy Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron a mynediad at ymgynghoriaeth fusnes arbenigol ar gyfer comisiynu artistig. Cadarnhawyd y byddai'r penodiadau'n cael eu cynnal ym mis Ionawr / Chwefror 2021 i gefnogi'r Broses Comisiynu Lawn. Cytunodd FT i drefnu cyfarfod dilynol ar gyfer cyflwyniad cyffredinol gyda GW.	**DG** **PB** **CMcg**

	Gofynnodd RL am drosolwg o'r proffil cyllido ar draws y gwledydd a'r dulliau cyllido.	**FT/GW** **PBa**

2.1	**<u>Y Fframwaith Rheoli Risgiau</u>** Darparodd PBa drosolwg o'r Fframwaith Rheoli Risgiau, gan gyflwyno sleidiau cryno (a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod ochr yn ochr â'r ddogfen fframwaith) Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bwysigrwydd Rheoli Risgiau ar brosiect sy'n seiliedig ar arloesedd a chreadigrwydd. Amlinellodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y pwyslais sy'n angenrheidiol ar risgiau gweithredol a chyflawni er mwyn galluogi dull agored o ymdrin â risgiau creadigol. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar y chwe chategori o ddosbarthu risgiau.	**JD**
	Cynigiwyd y gellid darparu rhagor o fanylion / esboniad o dan bob categori.	
	Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Fframwaith Rheoli Risgiau, yn amodol ar y canlynol: • Dylai Bwrdd Festival ddiffinio datganiadau parodrwydd i dderbyn risg a dosbarthu risgiau yng nghyfarfod mis Mawrth • Dylid diweddaru'r cynnydd ar Dudalen 10 o'r Fframwaith Risgiau.	**FT/VH** **JD**
2.2	Cytunwyd y byddai'r bydysawd risg yn cael ei gyflwyno i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd adroddiad ar y Newid Mewn Proffil Risgiau ar draws y Gofrestr yn cyd-fynd â hwn, gan dynnu sylw at risgiau newydd a nodir.	**JD**
	<u>Rheolaethau Ariannol</u> Amlinellodd RP Reolaethau Ariannol Festival, a thrafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y rhain.	
2.3	Ymatebodd PBa i ymholiad yn ymwneud â rheoli buddiannau a gwrthdaro posibl, gan gyfeirio at y polisi perthnasol sydd ar gael i'r Bwrdd ar yr ystafell fwrdd rithwir a nodi bod hyn yn rhan annatod o'r broses gaffael. ***Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Papur Rheolaethau Ariannol.***	
	<u>Y Fframwaith Rheolaethau Anariannol</u> Amlinellodd JD Reolaethau Anariannol Festival, a thrafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y rhain. Nodwyd, fel is-gwmni i'r Pwyllgor Trefnu yn ystod ei gyfnod sefydlu, fod Festival yn gweithredu ar sail Polisïau Grŵp Pwyllgor Trefnu pan nad yw Polisïau pwrpasol Festival wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol eto. Amlinellodd JD y cynllun cymeradwyo polisïau ar draws strwythurau llywodraethu Festival i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a nododd y dylai hyn fod wedi ei gwblhau erbyn Bwrdd Festival ar 3 Mawrth 2021.	**JD** **JD**
	Trafodwyd pwysigrwydd 'achosion a fu bron â digwydd' a 'chyfweliadau ymadael'. Cytunodd JD i sicrhau bod prosesau'n gweithredu mewn cysylltiad â'r meysydd hyn. Nododd VH fod yn rhaid i'r Bwrdd ymddwyn yn unol â Pholisi Cod Ymddygiad y Staff a pholisïau allweddol eraill y gweithlu, a adolygir ar hyn o bryd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cadarnhaodd PBa fod cod llywodraethu corfforaethol a chanllawiau ar arferion da ar gael i Gyfarwyddwyr y Bwrdd ar yr ystafell fwrdd rithwir. Nododd RL bwysigrwydd ystyried deddfwriaeth sy'n benodol i bob cenedl, megis "deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol" yng Nghymru, wrth ddatblygu Polisïau Festival. Dylai JD gynnal Traciwr Polisïau Festival a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. ***Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Papur Rheolaethau Anariannol.***	**JD**

3.1	**<u>Yr Wybodaeth Ariannol Ddiweddaraf - Y Fframwaith Adrodd ar Berfformiad Ariannol</u>** Amlinellodd PC y dull o Adrodd ar Berfformiad Ariannol a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol. Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei gyfrifoldebau mewn cysylltiad â'r £93.1 miliwn o gyllid a ddyfarnwyd i gwmni Festival. Rhoddodd FT yr wybodaeth ddiweddaraf am ohebiaeth rhwng yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chwmni Festival ynghylch y rhaglen gyllido a reolir yn ganolog. Dylai PBa rannu darn perthnasol o'r ohebiaeth hon.	**PBa** **PBa**

3.2	Cafwyd trafodaeth ynghylch y £22.7 miliwn o gyllid Festival a ddyfarnwyd yn uniongyrchol i'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig drwy grant bloc canlyniadol Barnett. Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bwysigrwydd datrys unrhyw faterion neu oediadau wrth ryddhau'r cyllid hwn i gefnogi'r gwaith o gyflawni Festival, a gofynnodd am yr wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod y Pedair Gwlad a gynhelir ar 16 Rhagfyr rhwng y Gweinidogion perthnasol. Cytunodd RP i gwrdd â chymheiriaid ym mhob un o'r cyrff a ariennir gan Festival i lunio crynodeb ariannol cyson o gyfanswm y proffil ariannu o £120 miliwn ar gyfer Festival. ***Cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar y Fframwaith Adrodd ar Berfformiad Ariannol.*** **<u>Adolygu'r Gyllideb Hyd Oes</u>** Amlinellodd RP a PBa y broses o ddatblygu Cyllideb Hyd Oes Festival, yn unol â'r Achos Busnes Amlinellol. Crynhodd RP y dadansoddiad o'r £120 miliwn gan gynnwys darpariaeth ar gyfer TAW na ellir ei hadennill a nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y £93.1 miliwn o'r cyllid hwn y disgwylid ei ddyfarnu i gwmni Festival. Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bwysigrwydd cynnwys trosolwg lefel uchel o broffil ariannu Festival sy'n cynnwys cyllid y gwledydd datganoledig yn y cynllun cyhoeddi perthnasol. Nodwyd y dylid gwneud ar y cyd â chymheiriaid cyfathrebu. ***Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Gyllideb Hyd Oes i'w chyflwyno i'r Bwrdd i gael ei chymeradwyo.***	**RP** **DG / PBa**
3.3	**<u>Adroddiad Perfformiad Ariannol Mis Hydref</u>** Crynhodd RP Adroddiad Perfformiad Ariannol mis Hydref a ddarparwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y broses o ragweld gwariant a'r broses adolygu. Nodwyd y bydd angen cynllunio ariannol helaeth gyda'r partneriaid a gomisiynwyd i gysoni gwariant ar draws pob un o'r deg prosiect a nifer o sefydliadau.	
3.4	***Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Adroddiad Perfformiad Ariannol mis Hydref.*** **<u>Papur Briffio ar TAW</u>** Crynhodd RP sefyllfa TAW cwmni Festival, gan gyfeirio at yr wybodaeth gefndirol a'r cyngor a ddarparwyd gan PWC. ***Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r sefyllfa TAW. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y dylid paratoi cyllidebau cwmni Festival ar y dybiaeth cynllunio ariannol nad oes modd adennill 100% o'r TAW ar wariant.*** Tynnodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sylw at yr angen i archwilio darpariaethau yn y ddeddfwriaeth dreth sy'n berthnasol i sectorau Festival, megis Rhyddhad Treth Theatr. Cytunwyd y ceisir cael cyngor ychwanegol pan fyddai'r prosiectau a gomisiynwyd yn hysbys ac y byddai hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd	**RP**

4.1	**<u>Blaengynllun y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg</u>** ***Cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar y blaengynllun.***	

4.2	**<u>Unrhyw Fusnes Arall</u>** Gan nodi ei swyddogaeth wrth ddarparu cyngor ar dreth ar werth hyd yma, datganodd GW berthynas flaenorol â PWC lle bu'n gweithredu fel cyflogai a phartner, a chadarnhaodd fod adolygiad o'r buddiant hwn wedi bod drwy'r cadarnhad a'r gwiriadau annibyniaeth perthnasol yn fewnol ac nad yw'n cael ei ystyried yn wrthdaro ar gyfer unrhyw gyngor y gallai cwmni Festival ei gael oddi wrth PWC yn y dyfodol.	

Traciwr Camau Gweithredu		**Y Sawl sy'n Gyfrifol**
Materion sy'n Codi		
1	Penodi Archwilydd Mewnol	DG
2	Crynodeb o'r Llif Prosiectau Caffael i'w darparu ar gyfer cyrchu dros £1 miliwn	PB
3	Cwblhau'r ddarpariaeth o gyngor cyfreithiol allanol a chomisiynu ymgynghoriaeth busnes.	CMcg
4	GW a FT i gwrdd ar gyfer Trafodaeth Ragarweiniol	FT/GW
5	Dosbarthu Trosolwg o Broffil Ariannu'r Pedair Cenedl	PBa
Y Fframwaith Rheoli Risgiau		
5	Diweddaru'r Fframwaith Rheoli Risgiau â sylwadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a darparu adroddiad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y dyfodol.	JD
6	Y Bwrdd i gytuno ar ddatganiadau parodrwydd i dderbyn risg erbyn mis Mawrth 2021, yn dilyn cyfraniad Diwrnod Strategaeth	FT/VH
Rheolaethau Anariannol		
7	Cynnal Traciwr Polisïau Festival a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Bwrdd Festival, gan gynnwys cyflwyno Polisïau newydd i lywodraeth Festival i gael eu cymeradwyo.	JD
8	Cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau ar gyfer 'cyfweliadau ymadael' ac 'achosion a fu bron â digwydd'.	JD
Rheolaethau Ariannol a'r Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllid		
9	Rhannu darn o ohebiaeth ar gostau rhaglen ganolog yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	PBa
10	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am y cynnydd wrth ryddhau cyllid Festival i'r Gweinyddiaethau Datganoledig	PBa
11	RP i gwrdd â chymheiriaid yn y Gweinyddiaethau Datganoledig / Cyrff Cyflawni Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro ariannol ar draws rhaglenni er sicrwydd.	RP
12	Cynnwys trosolwg lefel uchel o Broffil Cyllido Festival yn y cynllun cyhoeddi, yn dilyn cynllunio cyfathrebu cydgysylltiedig.	DG / PBa
13	Sefyllfa'r dreth i barhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd, gyda chamau penodol i geisio cyngor ar Ryddhad Treth Theatr pan fydd y comisiynau terfynol yn hysbys.	RP